


## EVANS, GWYNFOR RICHARD (1912-2005), cenedlaetholwr a gwleidydd



**Enw:** Gwynfor Richard Evans

**Dyddiad geni:** 1912

**Dyddiad marw:** 2005

**Priod:** Rhiannon Prys Evans (née Thomas)

**Plentyn:** Dafydd Prys Evans

**Plentyn:** Alcwyn Deiniol Evans

**Plentyn:** Meleri Mair Evans

**Plentyn:** Guto Prys

**Plentyn:** Meirir Ceridwen Ffransis (née Evans)

**Plentyn:** Branwen Eluned Evans

**Plentyn:** Rhys Dyrfal Evans

**Rhiant:** Catherine Mary Evans (née Richard)

**Rhiant:** Daniel James Evans

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** cenedlaetholwr a gwleidydd

**Maes gweithgaredd:** Gwladgarwyr; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

**Awdur:** Cynog Dafis

Ganwyd Gwynfor Evans ar 1 Medi 1912 yn Y Goedwig, 24 Somerset Road, y Barri, yr hynaf o dri o blant Daniel James ('Dan') Evans (1883-1972), siopwr diwyd a hynod lwyddiannus, a Catherine Mary (ganwyd Richard) (1879-1969), hithau'n siopwraig o blith Cymry capelog Llundain, yn hanu o Gydweli. Cynnyrch Cristnogaeth anghydfurfiol Cymru yn anad unpeth oedd Gwynfor Evans. Roedd ei dad-cu, Ben Evans (1854-1918), yn weinidog gyda'r Annibynwyr, a'i symudiad ef o Lanelli i'r Barri a barodd mai yn y dref fasnachol gosmopolitanaidd honno y ganwyd Gwynfor. Roedd Ben yn nai i weinidog ac yn frawd i ddau arall, ac i'r weinidogaeth yr aeth Idris (1887-1959), brawd Dan. Cafodd Gwynfor ei drwytho, drwy weithgareddau crefyddol a chymdeithasol capel ei dad-cu, lle roedd ei dad yn ddiagon, yn y traddodiad anghydfurfiol ar ei wedd ryddfrydol-radicalaidd, gydwladol. Glynodd wrth werthoedd y traddodiad hwnnw gydol ei oes a phwysodd yn drwm ar gyfeillion o weinidogion ar adegau o argyfwng ac wrth wneud penderfyniadau. Tebyg bod a wnelo'r gynhysgaeth hon â'r difrifoldeb moesol, y sêl genhadol, a'r ymroddiad hunan-aberthol dros yr achos a'i nodweddodd yn ei yrfa wleidyddol, yr oedd yn ei gweld, meddai, fel 'math o weinidogaeth'.

Proses led raddol fu gwneud y cysylltiad rhwng ethig anghydfurfiol ei fagwraeth a gwladgarwch, ac yna genedlaetholdeb, Cymreig. Saesneg oedd prif iaith aelwyd Dan a Catherine Evans, ac yn bendant iaith gyntaf y Gwynfor ifanc, ei chwaer Ceridwen (1914-2011) a'i frawd Alcwyn (1917-2007). Deffrowyd ei ddi-ddordeb mewn llenyddiaeth Gymraeg a hanes Cymru wrth draed athrawon eneiniedig tra'n ddisgybl yn chweched dosbarth ysgol ramadeg y Barri. Serch hynny pan aeth i astudio'r gyfraith yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn 1931 Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr a gweithgareddau Clwb Cyd-berthnasoedd Rhyngwladol a aeth â'i fryd. Yna daeth dan ddylanwad aelodau ifainc o Blaid Cymru a bu darllen *The Economics of Welsh Self-Government* **D. J. Davies** yn fodd i'w argyhoeddi y gallai hunan-lywodraeth i Gymru fod yn ymarferol.

Ymunodd â'r Blaid yn haf 1934 cyn cychwyn ar gwsr dwy flynedd yn Rhydychen lle y dyfnhawyd ei ymrwymiad wrth genedlaetholdeb. Pan ddychwelodd i Gymru, ac i swydd cyw-gyfreithiwr yng Nghaerdydd, fe ymdaflodd i actifistiaeth wleidyddol wirfoddol, o blaid hunan-lywodraeth i Gymru ond lawn cymaint, yn arbennig dan ddylanwad **George M. Ll. Davies** a'r **Dr Gwenan Jones**, dros Gristnogaeth gymdeithasol a heddychiaeth. Yn 1939 fe'i penodwyd yn ysgrifennydd Heddychwyr Cymru, cangen Gymreig y Peace Pledge Union, mudiad a oedd yn arddel pasifistiaeth ddigymrodedd. Gwiredwyd dyhead Gwynfor i asio heddychiaeth wrth genedlaetholdeb Cymru pan basiwyd penderfyniad yng nghynhadledd Plaid Cymru, Abertawe 1938, yn groes i ddymuniad **Saunders Lewis**, i ymwrthod yn llwyr â thrais yn y frwydr dros hunan-lywodraeth. Byddai pasifistiaeth Gwynfor, ynghyd â phenderfyniad cyfochrog y Blaid i gyrchu at ryddid i Gymru yn bennaf drwy ddulliau cyfansoddiadol, etholiadol, yn asgwrn cynnen parhaus rhyngddo ef a **Saunders Lewis** dros y degawdau dilynol, yn achos tyndra yn ei agweddau ef ei hun ac yn destun ymarfael yn y 'mudiad cenedlaethol' yn gyffredinol.

Cam tyngedfennol yng ngyrfa Gwynfor oedd ei benderfyniad yn 1939 i gefnu ar gyfreitha a symud i Langadog, yn gyntaf i ffarmio ac wedyn i redeg busnes garddio masnachol. Dyma ddychwelyd at ei wreiddiau teuluol a diwyllianol ac ar yr un pryd sefydlu mesur o annibyniaeth ariannol a fyddai'n ei alluogi i ymdaflu'n llwyr i'w genhadaeth dros Gymru. Dyma hefyd osod sylfaen ei berthynas wleidyddol â Sir Gaerfyrddin a fyddai'n ei arwain i'r Cyngor Sir (1949-73) ac i gynrychioli'r etholaeth ddwywaith yn San Steffan (1966-70, 1974-79). Ar Wyl Ddewi 1941 prydodd â Rhiannon Prys Thomas (1919-2006) y bu ei chefnogaeth ddiamedd i'w gŵr ac i'r achos cenedlaethol yn gwbl allweddol drwy lafur diflino a chyffroadau ei yrfa wleidyddol, ac a gariodd i raddau anghymesur y cyfrifoldeb o fagu eu saith plentyn.

Yng Ngorffennaf 1940 cafodd Gwynfor ryddhad diamod rhag gwasanaeth milwrol ar dir crefyddol. Dros y blynyddoedd dilynol daeth amlygrwydd cyhoeddus cynyddol i'w ran drwy'i ymgyrchu dros y mudiad heddwch a hefyd dros Undeb Cymru Fydd a sefydlwyd i wrthweithio'r bygythiadau i ddiwylliant Cymru, a'r Gymraeg yn arbennig, a ddaeth yn sgil y rhyfel. Bu wrthi yn ogystal yn dwysystyried sut y dylai Plaid Cymru ymbaratoi erbyn yr heddwch, er enghraifft ym maes diwydiant a'r economi, lle roedd yn gweld bwch anferth ym mholsi'r Blaid. Pan ymddiswyddodd **J. E. Daniel** o lywyddiaeth y Blaid yn 1943 roedd amryw, gan gynnwys **Saunders Lewis**, yn gweld Gwynfor fel olynnydd amlwg iddo ond am resymau personol a theuluol bu rhaid gohirio'r datbygiad, anochel braidd, hwnnw tan Awst 1945, blwyddyn etholiad cyffredinol pan safodd y Blaid mewn saith etholaeth, a Gwynfor yn ennill 10% o'r bleidlais ym Meirionnydd.

Dros y deng mlynedd nesaf fe ymdaflodd i genhadu diarbed, gan adeiladu'n raddol aelodaeth a threfniadaeth ei blaid. Gam wrth gam, yn boenus o araf, mewn cyfarfodydd cyhoeddus diddiwedd, drwy ohebiaeth a chyhoeddiadau, aeth ati i boblogeiddio ei neges graidd: bod Cymru'n genedl ag iddi orffennol anrhydeddus a diwylliant cyfoethog; mai ei safte darostyngedig o fewn y wladwriaeth Brydeinig oedd gwraidd ei mynych problemau, yn ddiwyllianol ac yn economaidd; a bod hunan-lywodraeth nid yn unig yn

hawl moesol ond yn rhagamod y ffyniant yr oedd pob rheswm i greu a oedd yn ddichonol iddi. Drwy waith caib-a-rhaw felly, Gwynfor yn fwy na neb arall a lwyddodd i bliannu'r naratif yma ym meddyliau cyfran gynyddol o'i gyd-Gymry, a'r to-odd-yn-codi o siaradwyr Cymraeg yn arbennig.

Ar yr un pryd roedd wrthi'n ceisio dylanwadu ar gyfeiriad polisi drwy ei aelodaeth o Lys Prifysgol Cymru, lle galwodd am sefydlu Coleg Cymraeg, ac o Bwyllgor Ymgynghorol y BBC. Yn 1954 rhoddwyd mynegiant i'r parch mawr oedd iddo ymysg cenedlaeth ifanc y Gymru anghyffurfiol pan gafodd ei ethol yn gadeirydd Undeb yr Annibynwyr (121,000 o aelodau meddid), a llwyfan i draddodi araith estynedig ar 'Gristnogaeth a'r Gymdeithas Gymreig'.

Yn ei ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg yn y Cyngor Sir, fe aeth benben â'r grŵp Llafur mewn gwrthdaro hynod niweidiol a barhaodd mewn gwahanol ffyrdd dros y tri degawd dilynol. Ar y llaw arall gwelwyd ei awydd i hyrwyddo cynnydd y genedl drwy gydweithio trawsbleidiol yn y ffaith iddo berswadio Pwyllgor Gwaith y Blaid yn 1949 i roi cychwyn ar ymgyrch Senedd i Gymru mewn Pum Mlynedd. Dechreuad digon sigledig a gafodd yr ymgyrch ond llwyddwyd i ddenu **Megan Lloyd George** yn gadeirydd ac ymhen y rhawg **Huw T. Edwards** a nifer o ASau Llafur i gefnogi'n gyhoeddus. Cafwyd raliau mawr a chyfarfodydd gorlawn ac erbyn i **S. O. Davies** gyflwyno'i Fesur Senedd i Gymru (a ddrafftwyd gan un o gefnogwyr pennaf Gwynfor, Dewi Watkin Powell) ger bron y Senedd ym Mawrth 1955 roedd y ddeiseb yn denu llofnodwyr wrth y miloedd, gan gynnwys yng nghymoedd y de.

Erbyn 1955 roedd gan Gwynfor bob rheswm i greu bod ei strategaeth ymgyrchol-etholiadol yn dwyn ffrwyth. Gallai ddehongli penderfyniad Llywodraeth Geidwadol Churchill i benodi Gweinidog Materion Cymreig yn 1951 a datganoli rhai pŵerau cyfyngedig i Gymru fel cydnabyddiaeth o statws cyfansoddiadol arbennig y genedl ac fel ymateb i bwysau cenedlaetholdeb. Ar yr un pryd roedd cefnogaeth etholiadol y Blaid ar gynydd. Yn etholiad seneddol 1955 dyblodd pleidlais Gwynfor ym Meirionnydd i 22% a chafwyd nifer o ganlyniadau addawol ledled Cymru.

Ar ddiwedd y 1950au torrodd cynllun Corfforaeth Lerpwl i foddï Cwm Tryweryn ar draws y broses ofalus yma o adeiladu graddol. Dros y blynyddoedd wedi'r rhyfel roedd y Blaid, a Gwynfor yntau, wedi bod yn barod i droi at weithredu anghyfreithlon mewn achosion neilltuol, yn erbyn y Swyddfa Ryfel yn Nhrwsgfynydd er enghraifft. Yn achos Tryweryn fodd bynnag brigodd y tyndra, a'r rhaniad o fewn y Blaid, i'r wyneb mewn modd dramatig. Ar y naill law wele'r garfan a oedd am weld adfer traddodiad arwrol Penybberth, ag arweinyddiaeth y Blaid yn defnyddio gweithred anghyfreithlon fel catalydd a fyddai'n tanio deffroad cenedlaethol. Roedd y garfan arall yn gweld gweithredu felly yn chwalu'r ymdrech i sefydlu'r Blaid yn rym gwleidyddol poblogaidd ac yn tanseilio'i strategaeth etholiadol.

Mae pob rheswm i greu bod Gwynfor ei hun yn cael ei rwygo rhwng y ddau duediad. Ni wnaeth neb fwy nag ef i ddygyfor a threfnu'r gwrthwynebiad i gynllun Lerpwl ond methwyd â meddalu calon y ddinas fawr. Pleidwyr etholiadaeth a chyfaddawd o fewn y Blaid a orfu a'u gobaiith oedd y ddi'r wobr drwy ethol Gwynfor yn AS Meirionnydd yn etholiad cyffredinol 1959. Siom fodd bynnag oedd canlyniad yr etholiad hwnnw ac agorwyd pennod bum-mlynedd o ymrafael chwerw yn hanes y Blaid a'i Llywydd.

Cafodd Gwynfor ei herio o ddau gyfeiriad. Gwelodd pleidwyr torcyfraith ei fethiant i weithredu'n uniongyrchol fel colli cyfle hanesyddol ar y gorau ac fel brad ar y gwaethaf. Methiant fu cynnig y garfan hon yng Nghynhadledd Llangollen yn 1961 i gael y Blaid i'r wyneymo i weithredu'n anghyfreithlon yn Nhrwyeryn. Saith mis yn ddiweddarach, serch hynny, yn Chwefror 1962 taniodd **Saunders Lewis** sialens uniongyrchol i holl ethos a strategaeth y Blaid yn ei ddarlith radio, 'Tynged yr Iaith', â'i galwad am ymgyrch drefnedig o weithredu uniongyrchol dros statws swyddogol i'r Gymraeg. Camddeallwyd neges y ddarlith gan rai pobl ifainc, ond nid gan Gwynfor a'i gydarweinyddion, a'r canlyniad fu sefydlu Cymdeithas yr Iaith ar gyrion Cynhadledd Pontardulais, Awst 1962. Yn yr un gynhadledd llwyddodd Gwynfor i drechu **Wynne Samuel**, a oedd wedi cynnig am y Llywyddiaeth, o fwyafrif clir ond nid llethol.

Daeth yr ail her o gyfeiriad New Nation, grŵp o radicaliaid ifainc, yn cynnwys Phil Williams ac Emrys Roberts, a oedd yn gweld ymlyniad Gwynfor wrth gapelyddiaeth Gymraeg yn rhwystr i dwf y Blaid yn y Gymru gynyddol seciular, ddiwydiannol. Yn eu cylchgrawn *Cilmeri* ymosodasant ar y 'bagad brith o sycffantiaid' ('Llys Llangadog') yr oedd Gwynfor yn dibynnu arnynt am gyngor ac a oedd allan o gysylltiad yn llwyr â 'syniadau cyfredol yng Nghymru'. Yn ogystal â shift ideolegol, galwent am ailwampio pellgyrhaeddol ar drefniadaeth y Blaid.

Yn dilyn siom bellach etholiad 1964 roedd llawer hyd yn oed ymhlith cefnogwyr pennaf Gwynfor yn amheus o'i bwyslais ar etholiadau seneddol. Bu ymadawiad Elystan Morgan am y Blaid Lafur yn ergyd beronol i Gwynfor ac yn arwydd ymddangosiadol o fethiant ei strategaeth.

Yna, mewn modd cwbl anrhagweladwy, cyfiawnhawyd y strategaeth honno, ynghyd â llafur cenhadol diarbed Gwynfor dros y blynyddoedd, drwy ei fuddugoliaeth lachar yn isetholiad Caerfyrddin, Gorffennaf 1966. Bu Gwynfor yn flaengar ac yn fawrfrydig yn awr ei lwyddiant. Siarsiodd ei gefnogwyr i groesawu'r miloedd o aelodau newydd, gwahanol iawn eu cefndir a'u diwylliant, a fyddai'n liflo i rengoedd y Blaid. Gweithredwyd diwygiadau trefniadol New Nation a chafodd aelodau'r grŵp hwnnw ran amlwg, yn benodol wrth estyn dylanwad y Blaid i'r de-ddwyrain diwydiannol. A hithau'n dod yn agos i gipio'r Rhondda (1967) a Chaeffili (1968) roedd ymchwydd llwyddiant y Blaid yn drawiadol. Gwnaeth Gwynfor ei farc fel aelod newydd yn wyneb ymosodiadau ffyrnig yn y Senedd.

Serch bod y Blaid wedi ymroi'n llwyr i wleidyddiaeth gyfansoddiadol fodd bynnag, fu traddodiad gweithredu uniongyrchol y mudiad cenedlaethol ddim yn hir cyn dod yn ôl i'w brathu, gan greu dilemâu personol a gwleidyddol poenus i Gwynfor. Penderfynodd beidio â mynychu Arwisgiad Tywysog Cymru yng Nghaermarfon yn 1969, ystum o gydnabyddiaeth i safbwynt y protestwyr, ond cytunodd i groesawu'r Tywysog i Gaerfyrddin yn rhinwedd ei swydd yn AS. Tra'n ceisio sefydlu pellter rhwng ei Blaid gyfansoddiadol ac ymgyrchoedd cynyddol ffyrnig Cymdeithas yr Iaith, ymnegodd edmygedd o wroldeb y gweithredwyr. Gallai'n hawdd wadu unrhyw gysylltiad â'r mudiadau treisgar tanddaearol a fu'n ysbeidiol weithgar dros gyfnod o ryw olyn mlynedd ond roedd hynny'n achos protestiadau'r Gymdeithas, ag aelodau o'i deulu'i hun yn amlwg ynddynt. Tebyg mai hyn a alluogodd y Blaid Lafur i daenu parddu eithafiaeth ar ddelwedd Plaid Cymru ac i lesteirio'i chynnydd. Collwyd etholaeth Caerfyrddin yn 1970.

Trwy gydol y 1970au fe'i cafodd Gwynfor ei hun yn ceisio llywio Cymru tuag at fesur o hunan-lywodraeth drwy groesgerrynt tymhestlog. Yn dilyn etholiadau 1974, pan lwyddodd i ennill yng Nghaerfyrddin am yr eildro, a'r ddau Ddafydd, Wigley ac Elis Thomas, yn gymrodyr seneddol iddo, y gamp oedd defnyddio'u safle i wthio Llafur tuag at ymrwymiad i sefydlu Cynulliad Cenedlaethol i Gymru. Am ba reswm bynnag serch hynny, o ganol y 70au roedd y gwynt yn hwylliau gwleidyddol Plaid Cymru yn pallu ac o dipyn i beth enillodd gwrthwynebwyr datganoli ymysg ASau Llafur y blaen. Dadleuodd amryw o fewn y Blaid dros olchi dwylo o unrhyw gyfrifoldeb i gefnogi Deddf Cymru 1968 ac roedd Gwynfor ei hun rhwng dau feddwl. Penderfyniad ar-y-cyd grŵp seneddol y Blaid fodd bynnag oedd nad oedd dewis ond cefnogi Ymgyrch Ie yn refferendwm 1979. Roedd y canlyniad, gyda dim ond 12% o'r etholwyr yn pleidleisio o blaid Cynulliad, yn drychineb i achos hunan-lywodraeth ac yn ddim llai nag argyfwng dirfodol i Blaid Cymru. I Gwynfor roedd holl obeithion 35 mlynedd a mwy o ymgyrchu unplyg yn sarn wrth ei draed. Yn gap ar y cwbl fe'i disodlwyd gan etholwyr Caerfyrddin am yr ail waith ar 3 Mai.

Roedd a wnelo'i adduned cyhoeddus flwyddyn yn ddiweddarach i ymprydio hyd angau â llawer yn fwy na'i bwrpas echblyg, sef sefydlu sianel deledu Gymraeg. Argyhoeddïad Gwynfor oedd fod ei blaid, ac yn bwysicach na hynny ei genedl, yn wynebu difancoll. Dim ond gweithred arwrol symbolaidd a allai eu hachub. Ped enillid sianel, byddai buddugoliaeth yn sbardun i godi'r Blaid o'i llesgedd. Pe bai'n marw, byddai achos Cymru'n cael ei chynysgaeddu â thaeirneb newydd a allai weddnewid ei ragolygon. Yn wyneb amheuan dwfn rhai o'i gydweithwyr agosaf ac amryw ymdrechion i'w berswadio i newid ei feddwl, ar dir moesegol yn ogystal â strategol, daliodd Gwynfor wrth ei ffrïad ac ym Medi 1980 cyhoeddwyd y byddai sianel deledu Gymraeg. Roedd Plaid Cymru wedi cael ei hailwefreiddio drwy i lywiawdwr ei datblygiad cyfansoddiadol ddychwelyd i draddodiad gweithredu uniongyrchol arwrol ei blynyddoedd cynnar, a'i hysbrydoli yn ogystal i symud ymlaen i gam newydd yn ei datblygiad.

Yn eironig ddigon mabwysiadu sosialaeth oedd y cam hwnnw. Gwrthwynebu'r symudiad a wnaeth Gwynfor i ddechrau, gan ei ddisgrifio fel 'cysgod-baffio, ymafelyd codwm rhithiol, balihw'. Fodd bynnag fe bleidleisiodd yng Nghynhadledd Caerfyrddin, 1981, ac yntau'n ymdeol o'r llywyddiaeth, dros gynnwys sosialaeth yn amcanion y Blaid. Diogelu undod y Blaid oedd rhan o'i gymhelliaid ond roedd yna elfen o gyffes hunan-feiriadol yn ogystal â realaeth strategol yn ei eiriau yn ystod streic y glowyr: 'Rhaid i ni gael gwared ar y ddelwedd, y bŵm i'n ddiarwybod gyfrifol am ei chreu, o genedlaetholdeb wledig, anghydfurfiol, a'i phwyslais i gyd ar yr iaith '.

Diau mai camgymeriad oedd ei benderfyniad i geisio ailgipio Caerfyrddin yn etholiad 1983. Cadwodd Llafur y sedd a gthwyd Gwynfor i'r trydydd safle gan y Tori. Roedd ei yrfa wleidyddol ar ben, ond nid ei ymlyniad gweithredol angerddol at yr achos. Ymatebodd yn greadigol i bryder ei gyd-genedlaetholwyr ynghylch effaith mewnfudiad ar yr iaith - pryder yr oedd e'n ei deimlo'n gymaint â neb - drwy sefydlu yn 1988 fudiad PONT, gyda'r bwriad o ddenu newydd-dddyfodiaid i ymuniaethu â gwlad eu mabwysiad. Fe'i penodwyd yn Llywydd Anrhydeddus y Blaid a bu'n ddibrin ei gyngor a'i gefnogaeth iddi. Dros flynyddoedd ei ymdeoliad ymlwybrodd aml i bererin i'w gartref e a Rhiannon ym Mhencarreg i ofyn am farn ac i rannu syniadau. Un a ddaeth yno i dalu parch, derbyn ysbrydoliaeth a mwynhau'r lletygarwch oedd Ron Davies AS, pensaer Deddf Llywodraeth Cymru, y pleidleisiodd etholwyr Cymru o'i phlaid yn Refferendwm 1997, pan fu lefel y gefnogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn allweddol i'r canlyniad. Yn dilyn llwyddiant rhyfeddol Plaid Cymru yn etholiad cynta'r Cynulliad Cenedlaethol daeth grŵp Aelodau Cynulliad y Blaid hwythau ar bererindod i Bencarreg.

Bu farw Gwynfor yn ei gartref, Talar Wen, Pencarreg, ar Ebrill 21, 2005, a chynhaliwyd ei angladd, a ddarlledwyd, yng nghapel Seion Aberystwyth. Amlogwyd ei weddillion yn amlogsgfa Aberystwyth a gwasgarwyd ei lwch yn ôl ei ddymuniad ar fryngaer y Garn Goch ger Llangadog, lle y bu'n aml yn ceisio nodded ac ysbrydoliaeth, a lle y saif cofeb iddo bellach. Ymhen wyth mis roedd ei weddw Rhiannon hithau wedi cyrraedd diwedd ei rhawd.

Buasai cyfraniad unigryw Gwynfor Evans i'r achos cenedlaethol yn amhosibl oni bai am ei gefndir teuluol go freintiedig. Gallodd sefydlu busnes a'i gwnaeth am gyfnod yn ariannol annibynnol ond tynnodd yn helaeth ar gefnogaeth ariannol ei berthnasau agosaf yn ogystal. Fe'i cefnogwyd yn ariannol hefyd gan edmygwyr eraill a oedd yn gweld ei gyfraniad yn allweddol i lwyddiant yr achos cenedlaethol. Fodd bynnag, cymeriad eithriadol Gwynfor ei hun a fu'n bennaf cyfrifol am y cyfraniad unigryw, cwbl ffurfiannol, a wnaeth i dwf cenedlaetholdeb ac i sefydlu'r egin-wladwriaeth Gyfreig sydd ohoni heddiw. Drwy'i ddcynwch unplyg anhygoel, ei ymgyrchu diflino a'i graffter gwleidyddol fe wnaeth fwy na neb i argyhoeddi ei gyd-Gymry y gallent fod mewn gwirionedd yn genedl wleidyddol. Roedd hefyd yn awdur nodedig o doreithiog a esgorodd ar ffrwd ddiatal o erthyglau a phamffledi a chyfrolau megis *Rhagom i Ryddid* (1964) ac *Aros Mae* (1971), ei bortread poblogaidd, arloesol a dylanwadol o hanes Cymru.

## Awdur

**Cynog Dafis**

## Ffynonellau

Pennar Davies, *Gwynfor Evans* (Abertawe 1976)

Rhys Evans, *Gwynfor, Rhag pob Brad* (Talybont 2005)

Peter Hughes Griffiths (gol), *Bro a Bywyd, Gwynfor Evans* (2008)

## Darllen Pellach

- Archifau LIGC: Mr. Gwynfor Evans. At Etholwyr Meirion
- Archifau LIGC: Llythyr at y Milwyr o Feirion
- Archifau LIGC: Gofynnir eich cefnogaeth garedig i Mr. Gwynfor Evans, Ymgeisydd Plaid Cymru
- Archifau LIGC: Sefwch dros Gymru... Gwynfor Evans
- Archifau LIGC: Mr. Gwynfor Evans. At Etholwyr Meirion
- Archifau LIGC: Gwynfor Evans invites you to consider these facts...
- Archifau LIGC: Vote for Fair Play for Plaid Cymru... Gwynfor Evans
- Archifau LIGC: Aberdare By-Election, October 28th, 1954. Gwynfor Evans
- Archifau LIGC: Plaid Cymru - Cyflwyno Gwynfor Evans, Darpar Ymgeisydd Etholaeth Caerfyrddin
- Archifau LIGC: Gwynfor Evans, Un Ohonom Ni
- Archifau LIGC: Vote for... Gwynfor Evans
- Archifau LIGC: Plaid Cymru... Gwynfor Evans
- Archifau LIGC: Dyma'r Dyn i Arwain Cenedl. Gwynfor Evans, Llywydd Plaid Cymru
- Archifau LIGC: Torrwrch Dir Newydd. A Gwynfor Evans Campaign Leaflet
- Archifau LIGC: Be Your Own Masters. A Gwynfor Evans Campaign Leaflet
- Archifau LIGC: Gwynfor Evans. Ffyddlon i Gymru : Loyal to Wales
- Archifau LIGC: Gwynfor Evans
- Archifau LIGC: Dalwch i Bwyso Dros Gymru
- Archifau LIGC: Yr Eiddoch yn Llwyd
- Archifau LIGC: Plaid Cymru. Chi a Gwynfor Evans and You
- Archifau LIGC: Y Tro Hwn Gwynfor Evans This Time
- Archifau LIGC: At Eich Galwad
- Archifau LIGC: Ffermwyr... Cefnogwch... Gwynfor Evans
- Archifau LIGC: Cefnogwch Gwynfor Evans i gael chwarae teg i'r ffarmwr
- Archifau LIGC: I Etholaeth Caerfyrddin Gwynfor Evans
- Archifau LIGC: Ei Nod yw Bywoliaeth Well i'r Ffermwyr... Gwynfor Evans
- Archifau LIGC: Llais Cryf dros Etholaeth Caerfyrddin
- Archifau LIGC: Welsh Devolution Referendum, 1979
- Archifau LIGC: Welsh Devolution Referendum, 1997
- Erthygl Wicipedia: Gwynfor Evans

## Sain a Ffilm

Archif ITV Cymru/Wales Archive: Gwynfor yn ennill Caerfyrddin 14/7/1966

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: Papurau Gwynfor Evans/Gwynfor Evans Papers

VIAF: 94634033

Wikidata: Q333132

**Dyddiad cyhoeddi:** 2016-02-24

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Dafis, C., (2016). EVANS, GWYNFOR RICHARD (1912-2005), cenedlaetholwr a gwleidydd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-EVAN-RIC-1912>

Cyfrannu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government